Gwasanaethu'r gymuned | Pobl | Gwasanaeth Tân ac Achub / Fire and Rescue Service | Ymdrechu dros ragoriaeth | Amrywiaeth a chynhwysiant

# GWEITHIWR CYMORTH DIOGELWCH YN Y CARTREF

**Yr Adran Atal Diogelwch Tân**
**Cyfleoedd ar draws ardaloedd Gogledd Gwynedd/Ynys Môn a Wrecsam/Sir y Fflint.**
**Parhaol gydag amser llawn a rhan amser ar gael**
**NWFRS Gradd 05 £29,064 i £31,022 y flwyddyn**

Rydym yn edrych i benodi Gweithiwr Cymorth Diogelwch yn y Cartref i ymuno â'n tîm Atal yn ardal y Dwyrain (Sir y Fflint a Wrecsam) a'r Gorllewin (Ynys Môn/Gogledd Gwynedd).

Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub ddyletswydd o dan Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i ddarparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac anogaeth i atal tanau a marwolaethau ac anafiadau cysylltiedig. Gan weithio gyda chymunedau Gogledd Cymru, mae Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref yn darparu cyngor ac arweiniad diogelwch tân, yn ogystal ag ymyriadau diogelwch tân addas yng nghartrefi grwpiau targed a nodwyd i gyfrannu at eu hiechyd, diogelwch a lles. O fewn eu maes cyfrifoldeb, byddant hefyd yn cefnogi'n rhagweithiol y gwaith o gyflwyno gweithgareddau ymwybyddiaeth diogelwch tân ac ymgyrchoedd diogelwch.

Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus sgiliau cyfathrebu dwyieithog rhagorol, gyda'r gallu i gyfathrebu 'n hyderus ac yn rhugl yn y Gymraeg (i lefel 4) yn hanfodol ar gyfer y swydd hon. Gyda ffordd agored a hygyrch, bydd ymgeiswyr yn canolbwyntio ar y cwsmer ac yn cael eu cymell i helpu eraill, yn enwedig pobl agored i niwed o fewn y grŵp targed a nodwyd, i gadw'n ddiogel ac yn iach mewn ffordd barchus a chyfrinachol.

Dylai ymgeiswyr nodi y gallai fod gofyniad i weithio y tu allan i oriau gwaith arferol ar achlysuron anaml ar gytundeb cydfuddiannol.

Mae'r swydd hon yn destun Gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Gwell a geirdaon boddhaol. Am ragor o fanylion am y rôl, cyfeiriwch at y pecyn gwybodaeth.

I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i: recriwtio@tangogleddcymru.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw**
**12.00 hanner dydd, 13 Mawrth, 2026 gyda chyfweliadau yn cael eu cynnal yr wythnos yn cychwyn 6 Ebrill 2026.**
*Bydd y dyddiad cau yn cael ei gadw'n llym ac ni fydd unrhyw eithriadau yn berthnasol.*

disability confident EMPLOYER

Cyflogwr Cyflog Byw ydym ni

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau | PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
call • text • live chat • email
Home shouldn't be a place of fear
Help is available 24/7

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i'r holl staff ac anogir ceisiadau gan unigolion waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau a byddwn yn ymateb yn eich iaith o'ch dewis yn ddi-oed. Bydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.